# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2011**

Amser:
**09:15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Clerk: Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639 / 029 2089 8032
**Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk**

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:15 – 09:20)
1.1 Daeth ymddiheuriadau i law gan Darren Millar, a bu Andrew RT Davies yn dirprwyo ar ei ran.

### 2. Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011 – Y prif heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru: tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (09:20 – 10:30)
2.1 Croesawodd y Pwyllgor Vanessa Phillips, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i'r cyfarfod.

2.2 Croesawodd y Pwyllgor Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Mark Jeffs, Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod.

2.3 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tyst.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu:

- Manylion pellach ynghylch benthyca darbodus, gan gynnwys cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.
- Nodyn a fydd yn cynnwys enghreifftiau lle mae ymgysylltu â'r cyhoedd a chyllidebu cyfranogol wedi cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaethau a gaiff eu darparu gan awdurdodau lleol.

- Gwybodaeth bellach sy'n egluro sut y cafodd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu gweithredu wrth dorri swyddi yn y sector cyhoeddus yn ddiweddar.

## 3. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Grantiau (10:30 - 10:45)

3.1 Cafodd Aelodau'r Pwyllgor eu briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Rheoli Grantiau yng Nghymru'.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn

## 5. Busnes y Pwyllgor yn y dyfodol (10:45 - 11:00)

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr eitemau busnes i ddod yn nhymor y gwanwyn 2012.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

6.2 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ynghylch yr ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh o dan y contract Merlin.

6.3 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd gan Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch yr ymchwiliad i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh o dan y contract Merlin.